BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO

CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

HWB CYDLYNU ARLOESI RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

CARDIFF AND VALE REGIONAL INNOVATION CO-ORDINATION HUB

# Dull Seiliedig ar Werth

**Sicrhau Gwell Canlyniadau**

## Dull Seiliedig ar Werth: Diffiniad

Defnydd teg, cynaliadwy a thryloyw o'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau canlyniadau a phrofiadau gwell i bob person.

## Pwysigrwydd y Dull Seiliedig ar Werth

Mae dull sy'n seiliedig ar werth yn helpu i sicrhau y bydd popeth yr ydym yn ei fuddsoddi (e.e. amser ac arian) yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i'r bobl leol yr ydym yn eu gwasanaethu.

## Pum Elfen


Mae pum elfen:

- Teg - Mae pawb sydd ei angen yn cael yr un cyfle i gael mynediad at wasanaeth a sicrheir y canlyniad gorau iddynt.
- Cynaliadwy - Nid yw'n canolbwyntio ar y presennol yn unig, ond yn meddwl am y dyfodol.
- Tryloyw - Dylai fod yn glir pam rydym wedi dewis darparu ein gwasanaethau yn y modd hwn a dylid ei rannu mewn ffordd y gall pob un ohonom ei deall.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau – Canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bwysig i bobl leol
- Ansawdd Uchel - Darparu profiad cadarnhaol a diogel.

## Mathau o Werth

Y pedair 'colofn' o werth yn y dull seiliedig ar werth yw:

- Personol (i'r unigolyn)
- Cymdeithasol (ar gyfer cymdeithas)
- Dyrannu (y ffordd orau o ledaenu adnoddau)
- Technegol (pa mor dda y mae adnoddau'n gweithio).



### Newid Ffocws

Mae mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar werth yn golygu symud oddi wrth y darparwyr gwasanaethau yn penderfynu beth sydd bwysicaf, i ddarganfod beth sydd bwysicaf i bobl.

### Mesur Beth sy'n Bwysig

Mae dull sy'n seiliedig ar werth yn ymwneud â mesur canlyniadau sydd o bwys i bobl mewn ffordd sy'n gyson ac yn gymaradwy, fel y gallwn nodi pa wasanaethau sy'n darparu'r gwerth mwyaf.

### Gweithredu Llwyddiannus

Mae chwe cham i gyflawni dull sy'n seiliedig ar werth:

- Cam 1: Polisi - Sefydlu'r fframwaith polisi cywir i weithio ar y cyd â phobl
- Cam 2: Parodrwydd - Sefydlu parodrwydd sefydliadol
- Cam 3: Diwylliant - Normaleiddio'r diwylliant o drafod canlyniadau gyda phobl
- Cam 4: Adnoddau - Darparu cyllid digonol i gefnogi newid a symud arian i ymyriadau gwerth uchel
- Cam 5: Canlyniadau - Cofnodi canlyniadau fel mater o drefn mewn systemau sydd ar gael i staff mewn modd amserol
- Cam 6: Adrodd - Adrodd am lwyddiant fel mater o drefn trwy ddefnyddio mesurau canlyniadau sydd o bwys i bobl

### Y Manteision

Mae dull sy'n seiliedig ar werth yn ystyried y canlyniadau y mae pobl yn eu cael o'u rhyngweithio â gwasanaeth; ansawdd y gwasanaeth a chost y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na dim ond mesur un ffactor yn annibynnol.

## Cod QR i'r Adroddiad Cymraeg




## Cod QR i'r Adroddiad Saesneg

Darllenwch fwy yn adroddiad blynyddol ein Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd 2021 (cyhoeddwyd 2022)